BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

Pori Drwy Stori

Adnoddau tymor yr hydref

Calendr Dyna Dywydd Pori Drwy Stori: Canllaw i Athrawon

Yr adnodd

Mae **Fy nghalendr Dyna Dywydd** yn cefnogi dysgu, siarad a rhyngweithio yn y cartref ac, ar yr un pryd, yn datblygu sgiliau rhifedd gan gynnwys rhoi pethau mewn trefn. Fe fyddwch chi'n derbyn **Fy nghalendr Dyna Dywydd** ar gyfer pob plentyn yn eich dosbarth Derbyn fel rhan o'r Rhaglen Pori Drwy Stori y mae BookTrust Cymru'n ei rhedeg.

Rydyn ni'n argymell bod plant a'u teuluoedd yn defnyddio Fy nghalendr Dyna Dywydd yn ystod **gwyliau hanner tymor yr hydref.**

Manteision i deuluoedd

Mae'n bosibl cyflwyno Fy nghalendr Dyna Dywydd yn y dosbarth a'i ddefnyddio gartref. Mae annog rhieni a gofalwyr i ddefnyddio'r calendrau i edrych ar y tywydd, tymhorau, diwrnodau a misoedd, a siarad amdanyn nhw, yn gallu cynnig llawer o fanteision:

- Gall plant ddatblygu eu dealltwriaeth o amser a threfn pethau.
- Mae plant yn datblygu geirfa ac yn cofio am weithgareddau'r wythnos.
- Gall teuluoedd ailymweld â rhigymau o'r Her Rigymu e.e. *The Seasons* a *Dwi'n Hoffi*.
- Mae defnyddio'r calendr yn gallu rhoi mwy o hyder i rieni a gofalwyr, a rhoi syniadau newydd iddyn nhw am ffyrdd i gefnogi rhifedd gartref.

Cyflwyno Fy nghalendr Dyna Dywydd

- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cyflwyno Fy nghalendr Dyna Dywydd yn y dosbarth i greu cyffro cyn ichi anfon yr adnodd adre. **Fe allech chi drafod a chofnodi'r tywydd gyda'ch gilydd yn ystod amser cylch.**
- Rhowch wybod i'r teuluoedd fod yr adnodd yn rhan o raglen Pori Drwy Stori, y rhaglen dysgu cartref-ysgol y mae BookTrust Cymru'n ei rhedeg.
- Anogwch y teuluoedd i lenwi'r calendr yn ystod gwyliau hanner tymor yr hydref. **Pwysleisiwch y bydd y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dilynol yn y dosbarth.**
- Anogwch y teuluoedd i rannu rhigymau a chaneuon am y tywydd. **Fe allen nhw ddefnyddio rhigymau o Her Rigymu Pori Drwy Stori neu gyfansoddi eu rhai eu hunain!**

Gweithgareddau Fy nghalendr Dyna Dywydd

- Atgoffwch rieni, gofalwyr a phlant i ddod â Fy nghalendrau Dyna Dywydd wedi'u llenwi yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau hanner tymor. **Fe allech chi ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, e-bost a thecstio i atgoffa pobl cyn ac ar ôl gwyliau hanner tymor.**
- Gwahoddwch y plant i ddangos eu gwaith o gartref i'r dosbarth neu mewn grwpiau bach. **Fe allech chi ofyn iddyn nhw rannu lluniau y maen nhw wedi'u gwneud neu ffotograffau y maen nhw wedi'u tynnu.**
- Crëwch graff dosbarth i gofnodi ac arddangos y mathau o dywydd y mae'r plant wedi'u cofnodi yn eu calendrau Dyna Dywydd. **Fe allech chi ddefnyddio'r graff ar gyfer trafodaethau yn y dosbarth yn ymwneud â rhifedd.**
- Gwobrwywch y plant â'r dystysgrif sydd ar gael yn Fy nghalendr Dyna Dywydd ar ôl hanner tymor. **Rhowch wybod i'r rhieni a'r gofalwyr mai'r plant sydd berchen ar Fy nghalendr Dyna Dywydd i fynd ag ef adre a'i gadw.**

I gael rhagor o syniadau, dilynwch ni ar Twitter
@BookTrustCymru
#poridrwystori

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

poridrwystori@booktrust.org.uk
booktrust.org.uk/poridrwystori

Darluniau gan Matt Joyce